

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Yr adolygiad o etholaethau seneddol yng Nghymru

Medi 2011

Mae *Deddf Pleidleisio Seneddol ac Etholaethau 2011* yn ei gwneud yn ofynnol i'r pedwar Comisiwn Ffiniau yn y Deyrnas Unedig gynnal adolygiad cyffredinol o etholaethau seneddol yn eu rhan hwy o'r DU cyn 1 Hydref 2013.

Mae'r papur hwn yn rhoi amlinelliad o'r broses adolygu yng Nghymru, yn edrych ar y dyddiadau pwysig yn y broses hon, ac yn amlinellu sut y gallai newidiadau i etholaethau seneddol y DU effeithio ar etholaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Gwasanaeth
Ymchwil



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn darparu ymchwil a gwybodaeth arbenigol a ddiuedd er mwyn cefnogi Aelodau a phwyllgorau'r Cynulliad i gyflawni swyddogaethau craffu, deddfwriaethol a chynrychioliadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd. Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon i'r cyfeiriad post neu e-bost isod.

Gellir cael gafael ar fersiwn electronig o'r papur ar safle'r Cynulliad Cenedlaethol yn:
www.cynulliadcymru.org/bus-assembly-publications-research.htm

Mae copïau printiedig hefyd ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau:
Y Gwasanaeth Ymchwil
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

E-bost: Research.Service@wales.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2011
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Yr adolygiad o etholaethau seneddol
yng Nghymru

Medi 2011

Owain Roberts

Rhif dogfen: 11/055



Gwasanaeth
Ymchwil

Crynodeb

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys:

- crynodeb o'r newidiadau sy'n ofynnol i etholaethau seneddol yng Nghymru o dan *Ddeddf Pleidleisio Seneddol ac Etholaethau 2011*;
- golwg ar y broses adolygu ffiniau yn 2013 gan gynnwys manylion am ymarferion ymgynghori statudol a gynhelir gan y Comisiwn Ffiniau i Gymru;
- map i ddangos yr etholaethau seneddol presennol yng Nghymru a nifer y rhai sydd wedi cofrestru i bleidleisio ym mhob etholaeth;
- gwybodaeth am yr effaith a gaiff newidiadau i etholaethau seneddol y DU ar etholaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru; a
- gwybodaeth am ddatgysylltu etholaethau ar gyfer senedd y Deyrnas Unedig a senedd yr Alban.

Cynnwys

1.	Cyflwyniad	1
2.	Y broses adolygu ffiniau yng Nghymru	2
2.1.	Adolygiad 2013 o etholaethau seneddol y DU	2
2.2.	Ymgynghori ar y cynigion cychwynnol	5
2.3.	Ymatebion cychwynnol a rhagolygon ynghylch seddi	6
3.	Yr effaith ar etholaethau'r Cynulliad	9
3.1.	Y ddadl ar newid ffiniau etholaethol y Cynulliad.....	9
3.2.	Datgysylltu etholaethau yn yr Alban.....	12
A.	Amserlen y broses adolygu ffiniau yng Nghymru	14

Adolygiad o etholaethau seneddol yng Nghymru

1. Cyflwyniad

Mae nifer yr etholaethau seneddol yng Nghymru yn mynd i ostwng o chwarter, o 40 i 30, erbyn dyddiad Etholiad Cyffredinol nesaf y Deyrnas Unedig, sydd i'w gynnal ar 5 Mai 2015.

Mae'r newidiadau hyn yn ofynnol o dan *Ddeddf Pleidleisio Seneddol ac Etholaethau 2011*¹ ("Deddf 2011") a gafodd Gydsyniad Brenhinol ar 17 Chwefror 2011. Dywed Rhan 2² o'r Ddeddf:

- y dylid gostwng cyfanswm nifer yr etholaethau seneddol yn y DU o 650 i 600 (502 sedd yn Lloegr, 16 yng Ngogledd Iwerddon, 52 yn yr Alban a **30 yng Nghymru**); ac
- y dylai maint poblogaeth pob etholaeth fod o fewn 5 y cant i 'gwota etholaethol y DU', sef 76,641 ar hyn o bryd.

Er mwyn cyflawni hyn, mae Deddf 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i'r pedwar Comisiwn Ffiniau yn y Deyrnas Unedig gynnal adolygiad cyffredinol o'r etholaethau seneddol yn eu hardaloedd hwy a chyflwyno adroddiadau terfynol ar yr adolygiadau i Lywodraeth y DU cyn 1 Hydref 2013.

Diben y papur hwn yw rhoi amlinelliad o'r broses adolygu ffiniau yng Nghymru, yn ogystal â nodi dyddiadau pwysig y Comisiwn Ffiniau i Gymru ar gyfer ymgynghori a chyflwyno adroddiadau. Bydd y papur hefyd yn nodi sut y gallai'r newidiadau hyn effeithio ar etholaethau'r Cynulliad yn y dyfodol.

¹ [*Deddf Pleidleisio Seneddol ac Etholaethau 2011 \(p.1\) \(Saesneg yn unig\)*](#)

² Roedd Rhan 1 o Ddeddf 2011 yn galluogi i refferendwm gael ei gynnal ar 5 Mai 2011 ar ddefnyddio system etholiadol y Bleidlais Amgen neu'r system y Cyntaf I'r Felin ar gyfer etholiadau seneddol y DU.

2. Y broses adolygu ffiniau yng Nghymru

Cynhelir yr adolygiad o ffiniau etholaethau seneddol yng Nghymru gan y **Comisiwn Ffiniau i Gymru** (“y Comisiwn”), sydd hefyd yn adolygu ffiniau rhanbarthau etholaethol y Cynulliad. Hwn yw un o’r pedwar Comisiwn Ffiniau yn y Deyrnas Unedig, ynghyd â’r Comisiwn Ffiniau ar gyfer Lloegr, Gogledd Iwerddon a’r Alban.³

Cafodd y Comisiwn ei sefydlu o dan Atodlen 1 o *Ddeddf Etholaethau Seneddol 1986*⁴ (“Deddf 1986”) (fel y’i diwygiwyd gan *Ddeddf Comisiynau Ffiniau 1992*⁵ a *Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000*⁶), a hynny er mwyn adolygu’n barhaus y dosbarthiad seddi mewn etholiadau seneddol. Mae’n Gorff Cyhoeddus Anadrannol a gaiff ei ariannu gan **Swyddfa'r Cabinet**.

Y Comisiwn sy’n gyfrifol am gynnal adolygiad cyffredinol o bryd i’w gilydd o holl etholaethau Cymru ac am gyflwyno adroddiadau i Lywodraeth y DU yn argymhell sut y dylid dosbarthu seddi seneddol yng Nghymru. Mae Deddf 1986 yn ei gwneud yn ofynnol i’r Comisiwn gyflwyno adroddiadau o’r fath unrhyw bryd rhwng wyth a deuddeg mlynedd o ddyddiad cyflwyno’r adroddiad blaenorol.

Yr adolygiad diwethaf a gynhaliwyd gan y Comisiwn oedd y pumed adroddiad cyfnodol ar etholaethau seneddol (hwn hefyd oedd yr adroddiad cyntaf ar etholaethau’r Cynulliad), a osodwyd gerbron Senedd y DU ar 14 Rhagfyr 2005. Roedd *Gorchymyn Etholaethau Seneddol a Rhanbarthau Etholiadol y Cynulliad (Cymru) 2006*⁷ yn rhoi argymhellion yr adroddiad ar waith, gan gynnwys cadw nifer y seddi seneddol yng Nghymru i 40 a gwneud nifer o newidiadau i 24 o’r etholaethau hynny.⁸ Daeth y Gorchymyn i rym cyn etholiadau’r Cynulliad ym mis Mai 2007 ac roedd hefyd yn sail i’r ffiniau seneddol a ddefnyddiwyd yng Nghymru ar gyfer Etholiad Cyffredinol y DU yn 2010.

2.1. Adolygiad 2013 o etholaethau seneddol y DU

Er mwyn gwireddu gofynion Deddf 2011, rhaid i’r Comisiwn adolygu’r ffiniau seneddol presennol yng Nghymru a chyflwyno adroddiad i Lywodraeth y DU erbyn 1 Hydref 2013 fan bellaf. Yn ystod yr adolygiad hwnnw, mae Deddf 2011 hefyd yn nodi y dylai’r Comisiwn:

³ Mae’r Comisiwn Ffiniau i Gymru yn sefydliad ar wahân i’r **Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru** sy’n gorff annibynnol sy’n adolygu pob ardal llywodraeth leol yng Nghymru a’r trefniadau etholiadol ar gyfer yr ardaloedd hynny. Mae rhagor o wybodaeth am y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru wedi’i chynnwys mewn **papur ymchwil** a gyhoeddwyd gan y Gwasanaeth Ymchwil.

⁴ *Deddf Etholaethau Seneddol 1986 (p.56) (Saesneg yn unig)*

⁵ *Deddf y Comisiynau Ffiniau 1992 (p.55) (Saesneg yn unig)*

⁶ *Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (p.41) (Saesneg yn unig)*

⁷ *Gorchymyn Etholaethau Seneddol a Rhanbarthau Etholiadol y Cynulliad (Cymru) 2006 (SI 2006/1041)*

⁸ Mae rhagor o wybodaeth ar gael am y newidiadau a wnaed gan Orchymyn 2006 ym mharagraff 1.1 o **Papur Ymchwil 07/006, Etholaethau’r Cynulliad a Rhanbarthau Etholiadol, Ionawr 2007 [Fel ar 3 Awst 2011]**

- ddyrannu nifer penodol o 30 o etholaethau i Gymru (a gaiff eu cyfrif o gyfanswm penodol o 600 o etholaethau ar gyfer y DU yn ei chyfanrwydd); a
- sicrhau bod gan bob etholaeth gyfanswm o etholwyr sydd o fewn 5 y cant i 'gwota etholaethol y DU', sef 76,641 ar hyn o bryd. Yn ymarferol, golyga hyn y bydd yn ofynnol i bob etholaeth yng Nghymru fod â nifer o rhwng 72,810 a 80,473 o etholwyr erbyn etholiad cyffredinol y DU yn 2015.⁹

O dan amodau Deddf 2011, rhaid i'r Comisiwn seilio ei argymhellion yn ei adroddiad terfynol ar nifer yr etholwyr y mae eu henwau'n ymddangos ar y gofrestr o etholwyr seneddol a gyhoeddwyd rhwng 1 Rhagfyr 2010 ac 1 Chwefror 2011.¹⁰ Mae hwn ar gael ar [wefan y Comisiwn](#). Mae map, sy'n cynnwys yr etholaethau seneddol presennol yng Nghymru ynghyd â nifer yr etholwyr sydd wedi cofrestru i bleidleisio ym mhob etholaeth, wedi'i gynnwys isod.

⁹ [Y Comisiwn Ffiniau i Gymru, Llythyr Newyddion, Mawrth 2011, paragraff 6 \[Fel ar 3 Awst 2011\]](#)

¹⁰ Ibid, paragraff 9



Ffynhonell: Comisiwn Ffiniau i Gymru a Y Gwasanaeth Ymchwil

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2011
Arolwg Ordnans 100047295.

Wrth gynnal yr adolygiad, mae'r Comisiwn wedi nodi ei fod yn bwriadu ystyried y ffiniau llywodraeth leol presennol wrth lunio ei argymhellion cychwynnol. Yn ôl y Comisiwn, byddai dull o'r fath, lle y defnyddir adrannau etholaethol llywodraeth leol fel sail i etholaethau seneddol, yn ddymunol oherwydd:

... y bydd unrhyw rannu adran etholiadol rhwng etholaethau yn debygol o dorri cysylltiadau lleol, rhwygo sefydliadau pleidiau gwleidyddol, achosi trafferthion i Swyddogion Cofrestru Etholiadol a Swyddogion Canlyniadau ac, efallai drysu'r etholwyr.¹¹

Mae hyn yn adlewyrchu dull gweithredu'r Comisiwn yn ystod ei drydedd (1976 – 1983), pedwaredd (1991 – 1995) a phumed (200 – 2006) proses adolygu cyffredinol, lle nad oedd unrhyw ranbarth etholiadol llywodraeth leol wedi'i rannu rhwng etholaethau.¹² Mae'r Comisiwn yn cyfaddef, fodd bynnag, bod gwyrdd oddi wrth y dull hwn yn "anorfod"¹³ yn ystod y chweched adolygiad cyffredinol, a hynny er mwyn ateb gofynion statudol Deddf 2011.

Wrth baratoi ei gynigion cychwynnol ar gyfer etholaethau seneddol newydd, cynhaliodd y Comisiwn gyfarfod ar y cyd â chynrychiolwyr o bleidiau gwleidyddol seneddol Cymru ym mis Ebrill 2011. Er bod y Comisiwn wedi gobeithio cyhoeddi'r cynigion hyn ym mis Medi 2011,¹⁴ ni fyddant ar gael yn awr tan fis Ionawr 2012, yn dilyn ymddiswyddiad y Comisiynwyr Paul Wood a John Bader.¹⁵

Yn ei newyddlen ym mis Mawrth 2011, dywedodd y Comisiwn hefyd y byddai'n cyhoeddi llyfryn i "gynorthwyo i sicrhau bod pobl yn clywed am y broses adolygu ac yn ei deall".¹⁶ Er bod y Comisiwn wedi disgwyl cyhoeddi'r ddogfen ym mis Ebrill 2011,¹⁷ nid oes canllaw o'r fath wedi'i gynhyrchu eto ac nid oes dyddiad cyhoeddi arall wedi'i nodi.

2.2. *Ymgynghori ar y cynigion cychwynnol*

Ar ôl cyhoeddi'r cynigion cychwynnol ym mis Ionawr 2012, bydd Adran 12 o Ddeddf 2011 yn creu fframwaith statudol newydd ar gyfer ymgynghori sy'n dibynnu ar gyfuniad o sylwadau ysgrifenedig a sylwadau llafar mewn gwrandawiadau cyhoeddus:

- **Sylwadau ysgrifenedig:** Mae'n ofynnol i'r Comisiwn ystyried pob sylw ysgrifenedig a gyflwynir iddo o fewn cyfnod statudol o 12 wythnos sy'n dechrau pan gyhoeddir y cynigion cychwynnol.

¹¹ Ibid, paragraff 15

¹² Ibid, paragraff 12

¹³ Ibid, paragraff 16

¹⁴ [Boundary Commission abandons September deadline for proposals to cut Welsh constituencies, Wales Online \[ar-lein\], 3 Awst 2011 \[Fel ar 3 Awst 2011\]](#)

¹⁵ [Y Comisiwn Ffiniau i Gymru, Llythyr Newyddion, Awst 2011 \[Fel ar 3 Awst 2011\]](#)

¹⁶ [Y Comisiwn Ffiniau i Gymru, Llythyr Newyddion, Mawrth 2011, paragraff 17 \[Fel ar 3 Awst 2011\]](#)

¹⁷ Ibid, paragraff 18

- **Gwrandawiadau cyhoeddus:** Cafodd y mathau blaenorol o ymchwiliadau cyhoeddus eu diddymu a daeth gwrandawiau cyhoeddus byrrach yn eu lle. Nid ymchwiliadau, cyfarfodydd na dadleuon cyhoeddus yw'r gwrandawiadau hyn, ond eu bwriad yw rhoi cyfle i'r Comisiwn egluro ei gynigion cychwynnol ac i bobl roi eu safbwyntiau ar y cynigion hynny. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn gynnal rhwng dau a phum gwrandawiad cyhoeddus yng Nghymru. Rhaid eu cynnal rhwng wythnos pump ac wythnos deg o'r cyfnod ymgynghori cychwynnol o 12 wythnos.

Ar ôl diwedd y cyfnod ymgynghori cychwynnol, mae'n ofynnol i'r Comisiwn gyhoeddi'r holl sylwadau a ddaw i law. Pan fydd y sylwadau hyn wedi'u cyhoeddi, bydd cyfnod statudol pellach o bedair ar gael i bobl gyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r Comisiwn. Nid oes dim gwrandawiadau cyhoeddus yn ystod y cam hwn.

Ar ôl y ddau gyfnod ymgynghori, bydd y Comisiwn yn ystyried y sylwadau a gafodd ac yn cyhoeddi rhybudd yn nodi a wnaed newidiadau i'r cynigion cychwynnol ai peidio. Os caiff y cynigion eu diwygio, yna bydd Deddf 2011 yn darparu ar gyfer cyfnod pellach o 8 wythnos ar gyfer cael sylwadau ysgrifenedig ynghylch y cynigion diwygiedig.

Bydd y Comisiwn wedyn yn ystyried unrhyw sylwadau ysgrifenedig ychwanegol a wnaed yn ystod y cyfnod ymgynghori wyth wythnos ar y cynigion diwygiedig, cyn cyhoeddi ei benderfyniadau terfynol mewn adroddiad ysgrifenedig ffurfiol i Lywodraeth y DU. Bydd cyflwyno'r adroddiad terfynol ffurfiol yn cloi'r broses adolygu. Dywed Deddf 2011 bod yn rhaid gwneud hyn cyn 1 Hydref 2013.

Fodd bynnag, cyn y bydd modd gweithredu'r newidiadau i ffiniau ar gyfer y DU yn gyfan, mae Deddf 2011 yn ei gwneud yn ofynnol bod y cynigion yn cael eu cymeradwyo'n ffurfiol gan fwyafrif syml o Aelodau Seneddol yn Nhŷ'r Cyffredin, a hynny mewn cynnig a gyflwynir gan Lywodraeth y DU.

Mae amserlen sy'n dangos y broses adolygu ffiniau, sy'n crynhoi'r wybodaeth isod, wedi'i chynnwys yn atodiad A.

2.3. Ymatebion cychwynnol a rhagolygon ynghylch seddi

Wrth golli chwarter ei seddi, Cymru yw'r rhan o'r DU a effeithir arni fwyaf gan ofynion Deddf 2011. O ganlyniad, disgwylir newidiadau arwyddocaol i etholaethau seneddol presennol. Cydnabu'r Comisiwn hyn, gan ddweud:

... y bydd rhoi'r fframwaith statudol newydd ar waith yn debygol o olygu newidiadau helaeth ac eang iawn i batrwm a chyfansoddiad presennol etholaethau..¹⁸

¹⁸ Ibid

Dywed Paul Flynn AS mai'r newid o 40 i 30 Aelod Seneddol yng Nghymru yw'r newid mwyaf erioed, ac y bydd pob sedd bron yng Nghymru yn cael ei newid oherwydd yr effeithiau y gallai newid yng Nghasnewydd eu cael ar ffiniau Ynys Môn.¹⁹

Mae gostyngiadau o'r fath hefyd yn debygol o arwain at densiynau gwleidyddol sylweddol. Trwy gollu deg Aelod Seneddol yng Nghymru, mae'r cyfreithiwr a'r arbenigwr cyfansoddiadol Alan Trench yn dadlau y bydd brwydrau chwerw yn debygol pan ddaw hi'n amser dewis ymgeiswyr, yn enwedig ymhlith yr aelodau Llafur".²⁰

Ers cyhoeddi cynigion Llywodraeth y DU, bu dadansoddwyr yn ceisio rhagweld maint, daearyddiaeth ac effaith wleidyddol gyffredinol yr etholaethau newydd. Cyhoeddwyd yr unig astudiaeth o'r fath a wnaed yn benodol mewn cysylltiad â Chymru gan y [Gymdeithas Diwygio Etholiadol](#) ym mis Mai 2010.²¹ Mae tabl sy'n crynhoi ei rhagolygon i'w weld isod:

New seat	Main predecessor	Other principal areas of new seat
MID AND WEST WALES		
Brecon & Montgomery	Brecon & Radnorshire	Montgomeryshire (main part)
Carmarthen	Carmarthen East & Dinefwr	Half of Carmarthen West & Pembrokeshire South
Ceredigion & Rhaedr	Ceredigion	Western Powys, Northern Pembrokeshire
Gwynedd & Machynlleth	Dwyfor Meirionnydd	Arfon (Caernarfon area), Montgomeryshire (Machynlleth area)
Llanelli	Llanelli	Gower (Pontarddulais area), Carmarthen E & Dinefwr (Ammanford area)
Pembroke	Preseli Pembroke	Half of Carmarthen West & Pembrokeshire South
NORTH WALES		
Conwy & Abergale	Clwyd West	Aberconwy (Conwy area)
Denbigh, Llangollen & Vale of Conwy	Clwyd South	Clwyd West (Ruthin area), Vale of Clwyd (Denbigh area)
Flint & Rhyl	Vale of Clwyd	Delyn (Flint area)
Mold & Shotton	Alyn & Deeside	Delyn (Mold area)
Wrexham	Wrexham	Clwyd South (Broughton area)
Ynys Mon & Bangor	Ynys Mon	Arfon (Bangor area)
SOUTH WALES CENTRAL		
Barry & Penarth	Vale of Glamorgan	Cardiff South & Penarth (Penarth)
Cardiff Central	Cardiff Central	Cardiff South & Penarth (Bute Town and Splott), Cardiff North (Gabalfa area)
Cardiff North East	Cardiff North	Cardiff South & Penarth (Llanrumney area), Cardiff Central (Cyncoed area)
Cardiff West	Cardiff West	Cardiff North (Whitchurch area), Cardiff Central (Grangetown)
Pontypridd & Aberdare	Cynon Valley	Pontypridd (Pontypridd town area)
Vale of Ely	Pontypridd	Cardiff West (Ely area), Vale of Glamorgan (Cowbridge area)
SOUTH WALES EAST		
Blaenau Gwent & Tredegar	Blaenau Gwent	Islwyn (Tredegar area), Merthyr Tydfil & Rhymney (Rhymney area)
Caerphilly	Caerphilly	Islwyn (Risca area)
Newport	Newport West	Newport East (urban core)
Merthyr Tydfil & Ystrad Mynach	Merthyr Tydfil & Rhymney	Caerphilly (Ystrad Mynach area)
Monmouth	Monmouth	Newport East (Llanwern and Caldicot)
Torfaen	Torfaen	Newport West (Caerleon and Malpas)
SOUTH WALES WEST		
Bridgend	Bridgend	Ogmore (Aberkenfig and north)
Rhondda & Ogmore	Rhondda	Ogmore (Ogmore Vale area), Pontypridd (Tonyrefail)
Neath & Aberavon	Aberavon	Neath (Neath town), Ogmore (Maesteg)
Swansea East & Vale of Neath	Neath	Swansea East (St Thomas area), Brecon & Radnorshire (Ystradgynlais area)
Swansea North & Loughor	Swansea East	Gower (Loughor area), Swansea West (Cockett)
Swansea West & Gower	Swansea West	Gower (Gower peninsula)

Sylwer mai cynrychioli darganfyddiadau'r Gymdeithas Diwygio Etholiadol yn unig mae'r tabl hwn yn ei wneud ac mae'n bosibl nad ydynt yn adlewyrchu darganfyddiadau ac argymhellion y Comisiwn Ffiniau i Gymru yn y dyfodol o gwbl.

¹⁹ [Will boundaries squeeze Tory? Blog Paul Flynn \[Ar-lein\], 1 Awst 2011 \[fel ar 3 Awst 2011\]](#)

²⁰ [The new electoral map for Westminster, Devolution Matters \[Ar-lein\], Gorffennaf 2010 \[Fel ar 3 Awst 2011\]](#)

²¹ [Y Gymdeithas Diwygio Etholiadol, 'Reduce and Equalise' and the Governance of Wales, Mai 2010](#)

Hefyd cyhoeddwyd canllaw rhagweithiol sy'n nodi sut y gallai'r etholaethau seneddol ar gyfer y DU i gyd newid o ganlyniad i Ddeddf 2011 gan bapur newydd y Guardian ar ei wefan ar 6 Mehefin 2011.²² Ymddangosodd gwybodaeth am ragolygon ar gyfer seddi a gynhaliwyd ar ran y Blaid Geidwadol gan y cyn Aelod Seneddol Rob Hayward ym mhapur newydd y Financial Times ar 28 Gorffennaf 2011.²³

²² [How UK parliamentary constituencies could change - interactive guide, *The Guardian* \[Ar-lein\], 6 Mehefin 2011 \[Fel ar 4 Awst 2011\]](#)

²³ [Tensions rise as Tories set to gain from boundary changes, *Financial Times* \[Ar-lein - gwefan y mae'n rhaid talu i'w darllen\], 28 Gorffennaf 2011 \[fel ar 4 Awst 2011\]](#)

3. Yr effaith ar etholaethau'r Cynulliad

Mae Deddf 2011 yn darparu ar gyfer datgysylltu etholaethau seneddol ac etholaethau'r Cynulliad. Mae Adran 13(1) yn nodi:

The Assembly constituencies are the constituencies specified in the *Parliamentary Constituencies and Assembly Electoral Regions (Wales) Order 2006* (S.I. 2006/1041)²⁴ as amended by—

the *Parliamentary Constituencies and Assembly Electoral Regions (Wales) (Amendment) Order 2008* (S.I. 2008/1791)^{25, 26}.

Felly, nid oes unrhyw newidiadau eraill yn ofynnol i etholaethau'r Cynulliad o dan Ddeddf 2011 cyn etholiadau nesaf y Cynulliad ym mis Mai 2016. Bydd 40 sedd etholaethol ac 20 sedd ranbarthol yn cael eu cadw ar gyfer etholiadau'r Cynulliad, a bydd 30 o etholaethau seneddol gwahanol mewn bodolaeth cyn Etholiad Cyffredinol y DU ym mis Mai 2015.

Fodd bynnag, mae Deddf 2011 yn darparu mewn amgylchiadau cyfyngedig (ynghyd â darpariaethau yn *Neddf Etholaethau Seneddol 1986*²⁷) ar gyfer diwygio etholaethau'r Cynulliad trwy Orchymyn yn dilyn cyflwyno adroddiad gan y Comisiwn i'r Ysgrifennydd Gwladol yn argymhell newidiadau i faint etholaethau seneddol Cymru.

3.1. Y ddadl ar newid ffiniau etholaethol y Cynulliad

Er gwaethaf y datgysylltu rhwng etholaethau seneddol ac etholaethau'r Cynulliad y mae Deddf 2011 yn darparu ar ei gyfer, mae'r gostyngiad a gynigiwyd yn nifer yr Aelodau Seneddol yng Nghymru wedi arwain at ddadl ynghylch a ddylid gostwng nifer yr etholaethau yn y Cynulliad yn yr un modd er mwyn iddynt gydffinio'n well ag etholaethau seneddol. Yn ei dro, mae hyn wedi arwain at gwestiynu a oes angen newid system etholiadol bresennol y Cynulliad?

Yn ystod cwestiynau Cymreig yn Nhŷ'r Cyffredin ar 11 Mai 2011, gofynnodd Jonathan Edwards AS i Ysgrifennydd Gwladol Cymru, y Gwir Anrhydeddus Cheryl Gillan AS:

Given the Labour party's opposition to decoupling Westminster and National Assembly constituency boundaries, would it not make sense to base the make-up of the fifth National Assembly on 30 regional and 30 constituency Assembly Members?²⁸

Mewn ymateb, dywedodd yr Ysgrifennydd Gwladol:

²⁴ [Gorchymyn Etholaethau Seneddol a Rhanbarthau Etholiadol y Cynulliad \(Cymru\) 2006 \(SI 2006/1041\)](#)

²⁵ [Gorchymyn Etholaethau Seneddol a Rhanbarthau Etholiadol y Cynulliad \(Cymru\) \(Diwygio\) 2008 \(S.I. 2008/1791\)](#)

²⁶ [Deddf Systemau Pleidleisio ac Etholaethau 2011 \(p.1\), Adran 13\(1\) \(Saesneg yn unig\)](#)

²⁷ [Deddf Etholaethau Seneddol 1986 \(p.56\) \(Saesneg yn unig\)](#)

²⁸ [Dadl Tŷ'r Cyffredin 11 Mai 2011 c1147 \[fel ar 3 Awst 2011\]](#)

That is a very interesting thought. Hon. Members are well aware that the Parliamentary Voting System and Constituencies Act 2011 broke the link between Assembly constituencies and parliamentary constituencies. I have agreed that we need to look carefully at the implications of having constituency boundaries relating to different areas and regions for UK and Assembly elections in Wales. I am taking the hon. Gentleman's question as a recommendation that we have 30 first-past-the-post seats and 30 elected on a list system, and I will look seriously at that suggestion.²⁹

Atebodd yr Ysgrifennydd Gwladol gwestiynau ychwanegol ynghylch ffiniau etholaethol y Cynulliad mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Materion Cymreig ar 13 Gorffennaf 2011. Yn ystod y cyfarfod hwnnw, cafwyd y sgwrs a ganlyn rhwng yr Ysgrifennydd Gwladol ac Owen Smith AS:

Owen Smith: Is it true, Secretary of State, that Wales Office officials recently met the Boundary Commission and political parties in Wales and said at that meeting that they were looking for a legislative vehicle to address changing the boundaries of the Assembly constituencies in Wales?

Mrs Gillan: I think Mr Edwards raised the matter with me on the Floor of the House. He raised the change of boundaries and in the number of parliamentary seats that will be going through in Wales and how that will affect the Assembly boundaries and any future shape in Wales. As far as I am concerned, we will have to look at that because I agreed with the First Minister before the last Assembly elections that we would decouple the Assembly boundaries from the parliamentary constituency boundaries, and therefore if any meetings have taken place they are quite right and proper because it is my duty to have a look at what possibilities exist and what options there would be.³⁰

Hefyd, gofynnodd Mr Smith i'r Ysgrifennydd Gwladol a oedd hi'n ystyried gwneud newidiadau i system etholiadol y Cynulliad:

Is it also true that your preferred proposal, as I understand it, is to go to what is called 3030? In order to achieve coterminosity between the 30 parliamentary boundaries, you go to 30 past the post seats in Wales and 30 list seats. Is it not true that, if you were pursuing that, it would benefit the Tory party significantly and other opposition parties in Wales and, therefore, is it not more gerrymandering?³¹

Mewn ymateb, dywedodd yr Ysgrifennydd Gwladol wrth yr Aelodau:

... as I say, it was raised on the floor of the House by Mr Edwards. I said I would look at it very carefully. It is very interesting. I have reached no conclusions whatsoever. Can I just assure this Committee that before anything goes forward to do with boundaries there would be a loud, long and large period of consultation? I think you are jumping the gun. Mr Smith, if you do not mind my saying so, you are setting a hare running when no hare is even in the field yet. We are doing the correct and responsible thing in the Department and we will continue to do so, but I would be very interested in your views.

²⁹ Ibid

³⁰ [Dadl y Pwyllgor Materion Cymreig, 13 Gorffennaf 2011 \[fel ar 9 Awst 2011\]](#)

³¹ Ibid

... when we have any information gathered in the Department on this subject, I will share it with the Committee. At the moment I have no such plans within the Department.³²

Gwnaed sylwadau ychwanegol ynghylch datgysylltu etholaethau'r Cynulliad ac etholaethau seneddol gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru yr Wrthblaid, y Gwir Anrhydeddus. Peter Hain AS, ar 14 Gorffennaf 2011:

As we've seen in Scotland, when you separate assembly seats from parliamentary seats, it creates a great deal of confusion for voters, for parties and for the wider public. If that happened in Wales, you would be likely to have a situation where one assembly seat straddled three parliamentary seats, which leads to confusion for voters, political parties and their representatives.

... I think everybody accepts there has to be change. There's a total agreement on this and we need to do it in a way that is non-tribal, crosses parties and seats to build consensus which I hope Cheryl Gillan does.³³

Roedd Mr Hain yn dadlau hefyd bod newidiadau o'r fath i ffiniau seneddol yng Nghymru yn rhoi cyfle i Lywodraeth y DU newid y system etholiadol lled-gyfrannol bresennol ar gyfer etholiadau'r Cynulliad:

The only acceptable option given the AV referendum result is to have all AMs elected by first-past-the-post, and we believe that each of the 30 new constituencies should elect two AMs by that system. I think in retrospect we have to accept that we got it wrong when we set up the assembly with a two-tier electoral system that has two kinds of AM, and it should now be changed. We believe the only change that would be possible without a further referendum or general election manifesto commitment is a change to first past the post.

The case for AV at Westminster level was defeated by a thumping majority for first-past-the-post. This is the only voting system that commands cross-party and public support in Wales ... In the end it's not about who wins and who loses, it's about accepting the verdict of the electorate and they were clear in this referendum.³⁴

Fodd bynnag, mewn llythyr a gyhoeddwyd yn y 'Western Mail' ar 18 Gorffennaf 2011, nid oedd Mick Antoniw AC yn gweld yr angen i newid y system etholiadol yng Nghymru o ganlyniad i'r newidiadau arfaethedig i etholaethau seneddol, a dywedodd y dylai unrhyw newidiadau i system lywodraeth gyfansoddiadol Cymru ddigwydd gyda chydysyniad y Cynulliad yn unig.³⁵ Ychwanegodd:

... no party has a mandate for any change to the Welsh electoral system. It did not appear in any party manifesto. Such a major change in Wales must require at the very least a referendum and probably an election manifesto commitment.

At the end of the day, the voting system in Wales for the Assembly belongs to the people of Wales and it would seriously undermine the devolution settlement and constitutional

³² Ibid

³³ [Peter Hain plans Welsh assembly election vote change, BBC News \[Ar-lein\], 14 Gorffennaf 2011 \[fel ar 3 Awst 2011\]](#)

³⁴ Ibid

³⁵ [No mandate for electoral change, llythyr i'r Western Mail, Wales Online \[Ar-lein\], 18 Gorffennaf 2011 \[fel ar 8 Awst 2011\]](#)

relations between Wales and Westminster to attempt to do anything without the consent of the people of Wales.³⁶

3.2. *Datgysylltu etholaethau yn yr Alban*

Mae etholaethau seneddol yr Alban ac etholaethau seneddol y DU wedi'u datgysylltu ers Etholiad Cyffredinol y DU yn 2005. Roedd hyn o ganlyniad i *Ddeddf Senedd yr Alban (Etholaethau) 2004*³⁷ ("Deddf 2004") a gafodd wared ar y cysylltiad statudol rhwng yr etholaethau ar gyfer Senedd yr Alban a'r etholaethau ar gyfer Tŷ'r Cyffredin yn unol â *Deddf yr Alban 1998*.³⁸ Roedd Deddf 2004 hefyd yn sicrhau bod cyfanswm nifer Aelodau Senedd yr Alban yn aros yn 129.

Mewn ymateb i bapur ymgynghorol Llywodraeth y DU a oedd yn rhagflaenu cyflwyno *Bil Senedd yr Alban (Etholaethau)* yn Senedd y DU, mynegwyd pryderon ynghylch effaith cael ffiniau gwahanol ar gyfer etholaethau San Steffan ac ar gyfer etholaethau Senedd yr Alban.³⁹ Gwnaeth yr Ysgrifennydd Gwladol yn yr Alban ar y pryd, y Gwir Anrhydeddus Helen Liddell AS, ddatganiad ar ganlyniad yr ymgynghoriad hwn ar 18 Rhagfyr 2002 ac roedd yn cydnabod pryderon ynghylch gweithredu ffiniau gwahanol ar gyfer San Steffan a Holyrood. Mewn ymateb, awgrymodd y dylid sefydlu comisiwn annibynnol i archwilio'r problemau a achosir gan ffiniau gwahanol a gwneud argymhellion ar y mater.⁴⁰

Cyhoeddwyd bod *Comisiwn ar Wahaniaethau o ran Ffiniau a Systemau Pleidleisio* wedi'i greu gan Ysgrifennydd Gwladol yr Alban ar y pryd, y Gwir Anrhydeddus Alastair Darling AS, yn ystod y ddadl ar ail ddarlleniad *Bil Senedd yr Alban (Etholaethau)* ar 9 Chwefror 2004. Ei gylch gorchwyl fyddai i:

... examine the consequences of having four different voting systems in Scotland, and different boundaries between Westminster and Holyrood. It will consider the implications for voter participation, the relationship between public bodies and authorities in Scotland and MPs and MSPs, and the representation of constituents by different tiers of elected members. It will be asked to make representations on whether the consequences require action to be taken in respect of arrangements between elected representatives, to ensure that constituents and organisations receive the best possible service; the pattern of electoral boundaries in Scotland; the relationship with other public bodies and authorities in Scotland; and the method of voting in Scottish parliamentary elections.

The commission will be independent. It will consider the case for change, and make recommendations to me and to the First Minister. I intend to discuss the chairmanship and membership of the commission with the other political parties in the House, and I will announce its membership in due course.⁴¹

³⁶ Ibid

³⁷ [Deddf Senedd yr Alban \(Etholaethau\) 2004 \(p.13\)](#)

³⁸ [Deddf yr Alban 1998 \(p.46\)](#)

³⁹ [Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, Standard Note: The Arbuthnott report and Scottish elections SN/PC/03918, 21 Mai 2007, tudalen 3 \[Fel ar 4 Awst 2011\]](#)

⁴⁰ Trafodion Tŷ'r Arglwyddi 18 Rhagfyr 2002 c859

⁴¹ Trafodion Tŷ'r Cyffredin 9 Chwefror 2004 c1151

Sefydlwyd y Comisiwn yn ffurfiol ym mis Gorffennaf 2004 o dan gadeiryddiaeth yr Athro Syr John Arbuthnott a chynhaliwyd ei gyfarfod cyntaf ar 9 Medi 2004. Cyhoeddodd ei [adroddiad](#) ar 19 Ionawr 2006. Nododd yr adroddiad yr argymhellion a ganlyn mewn cysylltiad â ffiniau:

- "Having the same constituencies for the Scottish Parliament and Westminster is desirable but not essential and should not drive change to the electoral system for the Scottish Parliament.
- The boundaries for Scottish Parliamentary constituencies should be within and respect local authority areas rather than Westminster constituencies.
- Scottish Parliament regions should be revised to reflect natural local communities and identity and should be built on local authority areas.
- The functions of the Boundary Commission for Scotland and the Local Government Boundary Commission for Scotland should be combined to enable the constituencies and regions for the Scottish Parliament and local authorities to be reviewed together. Consideration should also be given to integrating the review of Westminster constituencies in Scotland into this process."⁴²

Hefyd, canfu'r Comisiwn mai ychydig o ddiddordeb mewn lleoliad ffiniau a ddangoswyd gan unigolion a gafodd eu cyfweld yn eu grwpiau ffocws, a nodwyd nad oedd hyn yn fater a fyddai'n eu hatal rhag pleidleisio. Roedd y Comisiwn Etholiadol hefyd wedi nodi nad oedd dim tystiolaeth yn yr Alban a oedd yn awgrymu bod materion ynghylch ffiniau'n dylanwadu o gwbl ar nifer y bobl a oedd yn pleidleisio mewn etholiadau. Cefnogwyd hyn hefyd gan dystiolaeth ryngwladol a ddangosai nad oedd cydffinio'n arferol yn y rhan fwyaf o wledydd sydd â llywodraethau aml-lefel.⁴³

Mewn ymateb, roedd Llywodraeth y DU yn:

... pleased to note that the Commission was able to confirm that having different boundaries between the constituencies of the House of Commons and those of the Scottish Parliament is not a matter which requires further action and should not drive change to the electoral system for the Scottish Parliament.⁴⁴

Fodd bynnag, canfu adroddiad a gomisiynwyd gan awduron y Comisiwn fod y mwyafrif helaeth o Aelodau Seneddol yr Alban yn gwrthwynebu dod â chydffinio i ben. Yn ôl yr adroddiad, y prif resymau am hyn oedd:

- Trefniadaeth leol y pleidiau.
- Ymgyrchu gan y pleidiau gwleidyddol
- Diffyg eglurder i etholwyr.
- Anawsterau logistaidd i aelodau wrth drefnu gwasanaethau etholaethol lleol.
- Anawsterau logistaidd i grwpiau lleol.
- Perygl ychwanegol o gystadleuaeth rhwng aelodau etholedig.⁴⁵

⁴² [Commission on Boundary Differences and Voting Systems, Putting Citizen's First: Boundaries, Voting and Representation in Scotland](#), Ionawr 2006, tudalen 21 [fel ar 3 Awst 2011]

⁴³ [House of Commons Library, Standard Note: The Arbuthnott report and Scottish elections SN/PC/03918, 21 Mai 2007, tudalen 5](#) [Fel ar 4 Awst 2011]

⁴⁴ [The Scotland Office, Response by the Secretary of State for Scotland to the Report of the Commission on Boundary Differences and Voting Systems \(Arbuthnott Commission\)](#), 23 Ionawr 2007 [fel ar 4 Awst 2011]

⁴⁵ [Bradbury, J and Russell, M \(2005\) The Local Work of Scottish MPs and MSPs: Effects of Non-coterminous Boundaries and AMS, Report to the Commission on Boundary Differences and Voting Systems. UCL Constitution Unit and University of Wales Swansea, tudalennau 27 - 28](#) [fel ar 4 Awst 2011]

A. Amserlen y broses adolygu ffiniau yng Nghymru

Sylwer nad yw'r dyddiadau a nodwyd isod yn hollol gywir, efallai, a chânt eu cynnwys at ddibenion dangosol yn unig. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf am waith y Comisiwn Ffiniau i Gymru ac adolygiad 2013 ar gael ar ei [gwefan](#).

Gweithred	Dyddiad
<i>Deddf Systemau Pleidleisio ac Etholaethau 2011</i> yn cael Cydsyniad Brenhinol.	17 Chwefror 2011
Y Comisiwn Ffiniau i Gymru'n rhoi gwybod i Ddirprwy Brif Weinidog Cymru ei fod wedi dechrau'n ffurfiol ar ei chweched adolygiad cyffredinol.	4 Mawrth 2011
Y Comisiwn Ffiniau i Gymru'n cynnal cyfarfod ar y cyd â chynrhychiolwyr o'r pleidiau seneddol yng Nghymru.	Ebrill 2011
Cyhoeddi cynigion cychwynnol y Comisiwn Ffiniau i Gymru ar yr etholaethau seneddol (dechrau cyfnod ymgynghori statudol o 12 wythnos).	Ionawr 2012
Cynnal rhwng 2 a 5 gwrandawriad cyhoeddus ar y cynigion cychwynnol.	Chwefror – Ebrill 2012
Diwedd y cyfnod ymgynghori	Ebrill 2012
Cyhoeddi pob ymateb i'r ymgynghoriad a dechrau'r ail gyfnod ymgynghori 4 wythnos.	Mai 2012
Yr ail gyfnod ymgynghori yn dod i ben	Mehefin 2012
Y Comisiwn Ffiniau i Gymru'n cyhoeddi hysbysiad yn nodi a oes newidiadau wedi'u gwneud i'r cynigion cychwynnol ai peidio.	Ni wyddys y dyddiad

Os yw'r cynigion wedi'u diwygio, cyfnod ymyngkori pellach o 8 wythnos yn dechrau.	Ni wyddys y dyddiad
Diwedd y cyfnod ymyngkori pellach.	Ni wyddys y dyddiad
Y Comisiwn Ffiniau i Gymru yn cyhoeddi ei benderfyniadau terfynol mewn adroddiad a gyflwynir i Lywodraeth y DU	Erbyn 1 Hydref 2013
Cynnal pleidlais yn Nhŷ'r Cyffredin ynghylch gweithredu newidiadau i ffiniau ar gyfer y DU yn gyfan.	Ni wyddys y dyddiad - caiff ei bennu gan Lywodraeth y DU
Etholiad Cyffredinol y Deyrnas Unedig	7 Mai 2015
Etholiad Cyffredinol Cymru	5 Mai 2016